



**PWYLLGOR CYSTADLAETHAU
DYDD MAWRTH 8 MAWRTH 2022
TRWY GYFRWNG ZOOM, 7.00yh**

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Sian Healey

IS-GADEIRYDD: Miss Sioned Davies

PRESENNOL: Sian Healey (Cadeirydd y Pwyllgor), Sioned Davies (Is-gadeirydd y Pwyllgor), Caryl Hâf Jones (Cadeirydd CFFI Cymru), Hefin Evans (Is-gadeirydd CFFI Cymru), Carys Phillips (Sir Benfro), Delun Evans (Sir Benfro), Deryn Evans (Brycheiniog), Elizabeth Swancott (Maesyfed), Eiliw Griffith (Ynys Môn), Eloisa Isaac (Maldwyn), Emma Rees (Brycheiniog), Ffion Rees (Sir Gâr), Fflur Powell-Roberts (Ynys Môn), Gwen Thomas (Eryri), Gwyneth Thomas (Trefnydd Ffederasiwn Morgannwg), Kate Thomas (Morgannwg), Katie Court (Cyn-swyddog), Katie Matthews (Gwent), Leanne Davies (Brycheiniog), Manon Williams (Meirionnydd), Meinir Owen (Eryri), Sion Evans (Sir Gâr), Will Hughes (Ynys Môn)

HEFYD YN BRESENNOL: Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau, CFFI Cymru), Phil Ellis (Prif Weithredwr, CFFI Cymru)

C/51/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Fe wnaeth Siân Healey y Cadeirydd groesawu pawb i gyfarfod yr Is-bwyllgor Cystadlaethau. Fe wnaeth Siân hefyd longyfarch Katie Court ar achlysur genedigaeth eu baban.

Ychwanegodd Siân fod y cyfarfod yn cael ei recordio, a phe bai rhywun yn dymuno gofyn cwestiwn yn Gymraeg, byddai Caryl neu Sioned yn fodlon cyfieithu.

C/52/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth James Nixon (Maesyfed) ac Elen Williams (Morgannwg)

C/53/2022 CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Rhannwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar y sgrin a darllenwyd hwy a chadarnhawyd eu bod yn gofnod gwir a chywir.

Cynigydd: Deryn Evans, Brycheiniog

Eilydd: Eloisa Isaac, Maldwyn

C/54/2022 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

CAM GWEITHREDU	SYLWADAU
Pwynt Gweithredu 1: Bydd CFFI Cymru yn symud cystadlaethau Aelod y Flwyddyn i'r Diwrnod Siarad Cyhoeddus. Byddir yn anfon rheolau diweddaredig at y ffederasiynau sirol.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 2: Bydd CFFI Cymru yn holi pwy sy'n bwriadu cystadlu yn y gystadleuaeth Côr Sioe erbyn dydd Gwener 21 Ionawr.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 3: Bydd CFFI Cymru yn anfon cynnig at FfCCFFI i gynnal Pantomeim yn 2023 yn lle Drama.	Cwblhawyd; fodd bynnag, gwrthododd FfCCFFI y cynnig. Cynhelir cystadleuaeth adloniant yn lle hynny yn 2023.
Pwynt Gweithredu 4: Bydd CFFI Cymru yn cadarnhau'r tri lleoliad canolog ac yn ceisio eu harchebu ymlaen llaw.	Cadarnhawyd y tri lleoliad: Gogledd – Pafiliwn y Rhyl Canolbarth – Pafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid De – Neuadd y Brangwyn, Abertawe
Pwynt Gweithredu 5: Bydd CFFI Cymru yn gofyn i Ffederasiynau Sirol am eu hadborth ynghylch yr Eisteddfod fel y gall Ffederasiwn Sir Benfro drafod hynny cyn y cyfarfod nesaf.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 6: Bydd CFFI Cymru yn cysylltu â phwyllgor y Ffair Aeaf a Chywain ac yna bydd yn llunio drafft o reolau Ffair Aeaf 2022 cyn y cyfarfod nesaf.	Ar ôl cysylltu â'r ddau, ni chafwyd unrhyw ymateb gan Bwyllgor y Ffair Aeaf. Bydd Cywain yn ein hysbysu am eu syniadau cyn 8 Mawrth.
Pwynt Gweithredu 7: Bydd CFFI Cymru yn ystyried cynnal Diwrnod Chwaraeon yn Aberhonddu neu'r Drenewydd yn lle Aberystwyth.	Cwblhawyd. Bellach, cynhelir y digwyddiad yn Aberhonddu. Mae rheolau newydd wedi cael eu hanfon.
Pwynt Gweithredu 8: Bydd CFFI Cymru yn ychwanegu'r Dystysgrif Cymhwysedd at reolau Sioe Frenhinol Cymru ac yn eu hanfon at y Ffederasiynau Sirol.	Cwblhawyd

Pwynt Gweithredu 6, ynghylch y gystadleuaeth fideo hyrwyddo yn y Ffair Aeaf. Hysbyswyd y pwyllgor fod CFFI Cymru wedi gofyn i Bwyllgor y Ffair Aeaf am adborth, ond ni oeddent wedi cael ymateb ar y pryd.

Roedd Cywain wedi ymateb ynghylch y gystadleuaeth "dewch â'ch syniadau" a byddid yn trafod hynny yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod.

Roedd yr holl gamau gweithredu eraill wedi'u cwblhau ac nid oedd unrhyw faterion eraill yn deillio o'r cofnodion.

C/55/2022 GOHEBIAETH

Cafwyd e-bost oddi wrth drefnydd un o'r ffederasiynau sirol yn gofyn a oedd CFFI Cymru yn ysgythru cwpanau ar gyfer cystadlaethau rhithwir. Penderfynodd y pwyllgor y dylai CFFI Cymru ganiatáu i'r ffederasiynau gael yr opsiwn o wneud hynny os oeddent yn dymuno ysgythru'r cwpanau y byddent yn eu hennill.. Byddai'r ffederasiynau sirol yn talu am yr ysgythru.

Cynigydd: Deryn Evans, Brycheiniog

Eilydd: Siôn Evans, Sir Gaerfyrddin

Cafwyd llythyr oddi wrth Ffederasiwn Ynys Môn ynghylch Eisteddfod 2023. Darllenwyd y llythyr i'r pwyllgor. Yn y llythyr, nodai'r ffederasiwn eu bod yn dymuno cynnal yr Eisteddfod yn Ynys Môn yn hytrach nag yn y Rhyl.

Wedi trafodaeth sylweddol, penderfynwyd y dylai aelodau'r pwyllgor fynd â'r cynnig i'w ffederasiynau i'w drafod. Gwneir penderfyniad terfynol yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor cystadlaethau.

Cafwyd e-bost oddi wrth Huw Williams, un o sgorwyr CFFI Cymru. Nodai fod marciau am "daclusrwydd yr eitem orffenedig" yn y gystadleuaeth ffensio iau. Ychwanegodd hefyd fod y rheolau yn datgan y bydd tîm sydd ddim yn gorffen yn colli marciau am "daclusrwydd yr eitem orffenedig" yn ogystal â cholli pwyntiau cosb amser. Roedd y rheol hon wedi'i diddymu o reolau'r gystadleuaeth ffensio hŷn.

Wedi trafodaeth, penderfynwyd diddymu'r rheol hon fel y byddai'r rheolau yn cyd-fynd â rheolau'r gystadleuaeth hŷn.

Mae trefnyddion y ffederasiynau sirol wedi mynegi pryderon am ddiwrnod y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus o ran cystadlu trwy gyfrwng Zoom a dirwyon yn y gystadleuaeth Siarad Ar Ôl Cinio.

O ran cystadlu trwy gyfrwng Zoom, penderfynodd y pwyllgor na fyddid yn caniatáu i neb gystadlu trwy gyfrwng Zoom yn unrhyw un o gystadlaethau'r Diwrnod Siarad Cyhoeddus.

Cynigydd: Rhiannon Davies, Ceredigion

O ran y dirwyon yn y gystadleuaeth Siarad Ar Ôl Cinio, penderfynodd y pwyllgor fod dirwyon yn bwysig oherwydd natur y gystadleuaeth. Penderfynwyd hefyd y byddai dirwy yn cael ei hychwanegu at bob cystadleuaeth sy'n ymgorffori timau cymysg. Trafodir yr union eiriad yn y cyfarfod nesaf.

Fe wnaeth Manon Williams, Ffederasiwn Meirionnydd, holi'r pwyllgor am y rheolau sy'n datgan y caniateir i aelod gystadlu mewn un gystadleuaeth ym mhob iaith. Dywedodd Manon fod eu ffederasiwn sirol yn cael trafferth canfod aelodau i gystadlu a holodd a ellid diddymu'r rheol hon.

Wedi trafodaeth, penderfynodd y pwyllgor i gynnal y rheol oherwydd logisteg a chreu amserlen.

Roedd Ffederasiwn Brycheiniog wedi gofyn i'r pwyllgor a fyddai'n ystyried ychwanegu categori Dan 14 Oed at y cystadlaethau athletau a gaiff eu cynnal ar y Diwrnod Chwaraeon.

Cytunodd y pwyllgor i dderbyn y cynnig.

Cynigydd: Deryn Evans, Brycheiniog

Eilydd: Manon Williams, Meirionnydd

Cafwyd llythyr oddi wrth Ffederasiynau Brycheiniog a Maldwyn ynghylch cystadleuaeth y pantomeim a'u siom â'r ffaith mai dim ond tair sir a ysgrifennodd lythyr i gefnogi cynnig CFFI Cymru.

Nid oedd rhagor o ohebiaeth.

Pwynt Gweithredu 1: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau rheolau'r gystadleuaeth ffensio ac yn eu hanfon at y ffederasiynau sirol.

Pwynt Gweithredu 2: Bydd CFFI Cymru yn creu geiriad ar gyfer rheol newydd y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus i'w chymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

Pwynt Gweithredu 3: Bydd CFFI Cymru yn cynnwys adran dan 14 yn rheolau'r cystadlaethau Athletau.

C/56/2022 CADARNHAU TREFNIADAU

1. Côr Sioe

Hysbysodd Siân y pwyllgor fod tri ffederasiwn sirol wedi mynegi diddordeb mewn cystadlu yn wreiddiol, ond ers hynny, roedd dau wedi tynnu'n ôl. Felly, bydd Brycheiniog yn cynrychioli CFFI Cymru yn rownd derfynol FfCCFFI ac ni chynhelir rownd ar lefel Cymru.

2. Sioe Frenhinol Cymru 2022

Cafwyd rhywfaint o ymholiadau ynghylch rheolau cystadlaethau Sioe Frenhinol Cymru 2022. Rhannwyd y rheolau ar sgrin fel y gallai'r pwyllgor ystyried yr ymholiadau.

Cymeradwywyd y newidiadau hyn:

Cystadleuaeth coginio – Ychwanegu llinell at y rheolau i annog pobl i ddefnyddio poteli diodydd/alcohol gwag. Caniateir 15 munud ychwanegol i ateb yr holiadur.

Cystadleuaeth cneifio – Hanner bwrdd trestl i arddangos yr eitem a'r bwrdd naw.

Cneifio â gwelleifiau – Bydd marciau'r gystadleuaeth hon yn cael eu cynnwys yn y marciau at y tlws a gyflwynir i enillydd cyffredinol cystadlaethau Sioe Frenhinol Cymru.

Cystadleuaeth canu – Newid y rheolau i gynnwys "cyfeiriad yn y geiriau at enw unrhyw anifail neu sŵn unrhyw anifail". Hyd at 2 funud.

Dawnsio – Bydd cosb amser os na fydd cystadleuwyr yn cyflawni'r isafswm amser.

Ras Gyfnewid - Ychwanegir gwisgoedd ffansi ar thema "ar y fferm". Ychwanegir elfen o sylwebaeth hefyd. Dylai'r elfen hon gynnwys cyflwyno'r aelodau a'r clwb. Cyflwyniad yn para hyd at 3 munud. Dylid ychwanegu cynllun marciau i gwmpasu'r gwisgoedd a'r sylwebaeth. Rhennir y marciau fel a ganlyn:

50 marc – ras (Bydd y buddugol yn cael 50 marc, a bydd y marciau yn gostwng yn unol â safleoedd y timau)

30 marc – sylwebaeth (rhoddir cosbau amser os bydd hyn yn hwy na 3 munud)

10 marc - gwisgoedd

10 marc - gwreiddioldeb

Barnu Gwartheg Henffordd – Dylid diddymu'r gair trafod (*handling* yn Saesneg) o'r rheolau.

Cystadleuaeth gwisgo – Dylid cynnwys y frawddeg “ni ystyrir anifeiliaid yn eitem”

Hysbyseb teledu - Dylid ychwanegu “trac cyfeiliant yn unig” i gyd-fynd â'r cystadlaethau canu a dawnsio. Dylid newid y teitl o “Cynnyrch Cymreig” i “Cynhyrchion neu gynnyrch Cymreig”.

Gwaith coed iau – Mae angen cadarnhau nad oes yn rhaid i'r dyluniad gan yr RSPB fod yn ddyluniad terfynol ac mai canllaw yn unig yw hynny. Dylid ychwanegu y byddai angen i aelodau ddarparu eu mainc eu hunain. Yr unig ddeunyddiau y byddir yn eu defnyddio yw'r coed a ddarperir a'r gosodiadau. Dylent ddod â'u gosodiadau eu hunain.

Gwneud penffrwy – Ni fydd yn rhaid ailgylchu'r cortyn.

Llyfr lloffion – Dylai'r llyfr lloffion gynnwys 12 mis calendr y CFFI. Gall unigolyn neu grŵp gystadlu yn y gystadleuaeth hon.

Arwydd enw fferm / lle - Gall unigolyn neu grŵp gystadlu yn y gystadleuaeth hon. Dylid nodi yn y rheolau y bydd yn rhaid i o leiaf un aelod fod yn bresennol i ateb y cwestiwn sy'n rhan o'r gystadleuaeth yn Sioe Frenhinol Cymru. Bydd y bwrdd arddangos ar gyfer cwestiynau yn unig. Ni chynhwysir y postyn rhydd-sefyll yn y beirniadu.

O'r giât i'r plât – Ni chaniateir cyflwyniad PowerPoint.

Pwynt Gweithredu 4: Bydd CFFI Cymru yn addasu rheolau Sioe Frenhinol Cymru ac yn eu hanfon at y Ffederasiynau Sirol.

C/57/2022 CADARNHAU RHESTR CYSTADLAETHAU A RHEOLAU 2022/2023

1. Eisteddfod 2022 - dan ofal Sir Benfro

Hysbysodd Sian y pwyllgor fod ail ddrafft y rheolau wedi cael eu dosbarthu ac y croesawid unrhyw gwestiynau. Nid oedd gan y pwyllgor ragor o gwestiynau.

Cyfeiriodd Sian at fater yn ymwneud â Cherdd Dant. Ceir tlws i fuddugwyr y gystadleuaeth Cerdd Dant ac roedd rhai ffederasiynau sirol wedi cael eu gorfodi i gynnwys y gystadleuaeth hon yn ystod blynyddoedd blaenorol. Nid oedd wedi'i chynnwys yn rheolau Sir Benfro.

Cafwyd trafodaeth yn nodi y dylai ffederasiynau sirol allu penderfynu pa gystadlaethau y byddent yn eu cynnwys pan fyddant yn cynnal yr Eisteddfod yn y dyfodol.

Cynigydd: Carys Phillips, Sir Benfro

Eilydd: Deryn Evans, Brycheiniog

Awgrymodd Ffion o Ffederasiwn Sir Gaerfyrddin y dylai'r cynnig hwn fod yn ei le am y tair blynedd nesaf i osgoi gorfod ail-drafod pethau yn y pwyllgor. Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn fodlon â hyn.

Holodd Rhiannon o Ffederasiwn Ceredigion a oedd y Gân Gyfoes yn dal i fod yn rhan o'r adran adloniant ysgafn. Roedd pryder nad oes gan rai o feirniaid y cystadlaethau adloniant ysgafn y wybodaeth briodol am ganu i feirniadu'r gystadleuaeth hon.

Ymatebodd Delun o Ffederasiwn Sir Benfro gan ddatgan eu bod wedi trafod hyn ar lefel y ffederasiwn sirol ac wedi penderfynu y byddai'n parhau yn rhan o'r adran adloniant ysgafn. Fodd bynnag, yn y rheolau, roeddent wedi nodi y byddai'n cael ei beirniadu ar y cyd ag un o feirniaid y cystadlaethau cerddoriaeth.

2. Ffair Aeaf 2022

Eglurodd Sian fod Cywain wedi ymateb mewn perthynas â'r gystadleuaeth "Dewch Â'ch Syniadau Eich Hun". Roeddent yn dymuno datblygu'r gystadleuaeth hon ar y cyd â CFFI Cymru. Roedd eu syniadau yn cynnwys gwobr sy'n ymdebygu i ysgoloriaeth a fyddai'n caniatáu i'r enillydd wneud defnydd o ystod o wasanaethau gwahanol.

Cytunwyd y dylai'r aelodau drafod y syniad hwn gyda'u ffederasiynau sirol a rhoi adborth yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor cystadlaethau.

3. Cystadlaethau Cenedlaethol

Roedd y rhestr o gystadlaethau cenedlaethol wedi'i hanfod at y ffederasiynau sirol. Ni chafwyd rhagor o gwestiynau ynghylch y rhestr gystadlaethau.

4. Sioe Frenhinol Cymru 2023

Oherwydd ystyriaethau amser, penderfynwyd trafod y pwynt hwn fel rhan o agenda'r cyfarfod nesaf.

C/58/2022 EITEMAU'R AGENDA A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Ebrill trwy gyfrwng Zoom.

Dylai eitemau'r agenda gynnwys:

- Sioe Frenhinol Cymru 2023
- Cynnig Ffederasiwn Ynys Môn – lleoliad yr Eisteddfod
- Diwrnod Siarad Cyhoeddus – geiriad yr oblygiadau o ran y ddirwy
- Ffair Aeaf 2022 – cystadleuaeth Cywain

C/59/2022 UNRHYW FATERION ERAILL

Nododd ffederasiynau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Maldwyn y byddai eu cystadlaethau chwaraeon yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad cau. Roedd y pwyllgor yn fodlon caniatáu i'r ffederasiynau hyn anfon manylion eu cystadleuwyr ar ôl cynnal eu cystadlaethau.

Gofynnodd Siôn o Ffederasiwn Sir Benfro gwestiwn ynghylch y gystadleuaeth Sgiliau Ffermydd yn y Diwrnod Gwaith Maes. Roedd un aelod wedi holi a ellir defnyddio gradd nyrso ar gyfer elfen Cymorth Cyntaf y gystadleuaeth. Penderfynwyd na fyddai hyn yn ddigonol.

Nododd Kate o Ffederasiwn Morgannwg ei bod hi'n drueni y byddai Cystadleuaeth Pantomeim FfCCFFI a Diwrnod Gwaith Maes CFFI Cymru yn gwrthdaro. Ymddiheurodd Sian ar ran CFFI Cymru fod hyn wedi digwydd a nododd eu bod wedi sgwrsio â'r ddau ffederasiwn sirol sy'n cystadlu yng Nghystadleuaeth y Pantomeim. Nododd Sian y byddai'n ysgrifennu llythyr i ymddiheuro i FfCCFFI.

Holodd Sian aelodau'r pwyllgor a fyddai unrhyw un ohonynt ar gael i stiwardio yn ystod Diwrnod Siarad Cyhoeddus CFFI Cymru a fyddai'n cael ei gynnal ar 27 Mawrth.

Nid oedd rhagor o faterion i'w trafod a diolchodd Sian i bawb am eu hamser a'u cyfraniadau, a dymunodd lwc dda i ffederasiynau Morgannwg a Gwent yng Nghystadleuaeth Genedlaethol y Pantomeim.

Cyhoeddwyd fod y cyfarfod ar ben am 21:49.

CAM GWEITHREDU	SYLWADAU
Pwynt Gweithredu 1: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau rheolau'r gystadleuaeth ffensio ac yn eu hanfon at y ffederasiynau sirol.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 2: Bydd CFFI Cymru yn creu geiriad ar gyfer rheol newydd y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus i'w chymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 3: Bydd CFFI Cymru yn cynnwys adran dan 14 yn rheolau'r cystadlaethau Athletau.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 4: Bydd CFFI Cymru yn addasu rheolau Sioe Frenhinol Cymru ac yn eu hanfon at y Ffederasiynau Sirol.	Cwblhawyd